Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Cydnabyddiaeth ar sail perfformiad – Cynlluniau Sicrwydd Cymeradwy yr ASB

Nod y system 'cydnabyddiaeth ar sail perfformiad' yw lleihau'r baich ar fusnesau sy'n cydymffurfio gan olygu bod modd canolbwyntio gweithgarwch ar fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio cystal. Bydd y rhai sy'n gymwys i gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn elwa trwy gael llai o ymweliadau gan yr awdurdod gorfodi.

Rydym ni wedi cyflwyno lleihau amlder yr arolygiadau (cydnabyddiaeth ar sail perfformiad) ar gyfer busnesau sy'n cydymffurfio sy'n aelodau o gynlluniau sicrwydd cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn y meysydd cynhyrchu cynradd (2006), hylendid llaeth (2011) a bwyd anifeiliaid (2014).

Pan gaiff cynllun sicrwydd ei gymeradwyo, gall aelodau sy'n cydymffurfio â'r cynllun hwnnw elwa o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad, ar y sail eu bod yn cymryd camau cadarnhaol i leihau risgiau a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, trwy broses ardystio trydydd parti.

## Cynlluniau Sicrwydd Cymeradwy

Mae Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC) yn sefydliad annibynnol, nid er elw sy'n gweithio ar ran aelodau yn y sector cyflenwi amaethyddol. Mae AIC yn cynrychioli amrywiaeth o sectorau yn y diwydiant bwyd anifeiliaid ac mae'n rheoli nifer o gynlluniau sicrwydd.

Mae gan AIC dri chynllun sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni:

- Cynllun Sicrwydd Deunyddiau Bwyd Anifeiliaid (FEMAS)
- Cynllun Sicrwydd Masnachu ar gyfer Cnydau i'w Cynaeafu (TASCC)
- Cynllun Rhyngwladol Sicrwydd Bwyd Anifeiliaid (UFAS)

Mae AIC yn gweithredu i Femorandwm o Ddealltwriaeth (PDF) gyda'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban a'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD).

## Cynllun sicrwydd y Tractor Coch

Mae Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch yn gynllun sicrwydd ar hyd y gadwyn gyfan sy'n gweithredu safonau ar y fferm ac ar ôl giât y fferm, y gallu i olrhain, lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd.

Mae Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch hefyd yn gweithredu cynllun trwyddedu ar gyfer busnesau bwyd sydd am wneud honiad Tractor Coch. Mae rhagor o wybodaeth am ofynion trwyddedu Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch ar gael ar eu gwefan.

Mae gan Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch chwe chynllun sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni:

- Cig eidion a chig oen
- Cnydau a betys siwgwr
- Llaeth

- Cynnyrch ffres
- Moch
- Dofednod

Mae Cynllun Sicrwydd y Tractor Coch yn gweithredu i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (PDF) gyda'r ASB.

## Comisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon

Mae Comisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon (LMC) yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Comisiwn Marchnata Da Byw 1967. Mae'n gwasanaethu fel y corff statudol sy'n gyfrifol am gefnogi, hyrwyddo a sicrhau ansawdd sectorau cig eidion a chig defaid yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gan LMC un cynllun sydd wedi'i gymeradwyo gennym ni:

- Cynllun Sicrhau Ansawdd Ffermydd Cig Eidion ac Cig Oen Gogledd Iwerddon (NIBL FQAS)

Mae LMC yn gweithredu i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (PDF) gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon.

## Welsh Lamb and Beef Producers

Mae Welsh Lamb and Beef Producers Ltd (WLBP) yn gymdeithas gydweithredol amaethyddol a reolir gan ffermwyr sy'n cynnwys dros 7,000 o ffermwyr o Gymru. Mae WLBP yn ymdrechu i gryfhau hyder defnyddwyr trwy ddarparu sicrwydd o safonau ffermydd trwy'r Cynllun Sicrwydd Fferm Da Byw Cymru (FAWL).

Mae gan WLBP un ??cynllun sydd wedi'i gymeradwyo gennym ni:

- Cynllun Sicrwydd Fferm Da Byw Cymru (FAWL)

Mae Welsh Lamb and Beef Producers Ltd yn gweithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag ASB Cymru.

### Wales

PDF
Gweld Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Cig Oen a Chig Eidion Cymreig  as PDF(Open in a new window) (3.45 MB)

## Dilysu Cynlluniau Sicrwydd Cymeradwy

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a hyder parhaus ar ôl cymeradwyo cynllun sicrwydd i ennill cydnabyddiaeth, byddwn ni'n gwirio cydymffurfiaeth â'n meini prawf.

Mae awdurdodau gorfodi yn gwirio canran o aelodau'r cynllun sicrwydd i wirio cydymffurfiaeth busnes. Bydd y gwiriadiadau hyn yn ein galluogi i fod â hyder yn y cynllun sicrwydd a'r statws cynllun cymeradwy.

## Adroddiad eithriad yr Awdurdod Gorfodi

Pan fo awdurdod gorfodi yn tynnu sttws cydnabyddiaeth ar sail perfformiad oddi ar fusnes, dylai roi gwybod i'r ASB cynted â phosibl drwy ddefnyddio'r ffurflen adrodd am eithriad (MS Word - Saesneg yn unig).

Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i helpu'r ASB i gyflawni ei rôl o wirio'r cynlluniau sicrwydd cymeradwy.

Darllenwch ein hysbysiad preifatwydd ar adroddiadau am eithriadau.